# Cofnodion cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol a gynhaliwyd ar 8 Mai 2018 rhwng 12.00 a 13.30pm, Ystafell Gynadledda B, Ty Hywel.

**Yn bresennol:** gweler y rhestr sydd wedi'i hatodi

**Croeso a Chyflwyniadau:** Croesawodd Lee Waters AC (Cadeirydd) bawb i'r cyfarfod, yn enwedig dwy siaradwr gwadd y grŵp: Victoria Robinson - Rheolwr Gweithredol ar gyfer Rheoli Cynllunio ac Adeiladu Cyngor Bro Morgannwg a Roisin Willmott - Cyfarwyddwr RTPI Cymru**.**

**Gwneud Teithio Llesol yn rhan o System Gynllunio Cymru**

Siaradwyr Gwadd: Victoria Robinson - Rheolwr Gweithredol Rheoli Cynllunio ac Adeiladu Cyngor Bro Morgannwg. Roisin Willmott – Cyfarwyddwr RTPI Cymru.

Amlinellodd y ddwy siaradwr sut y mae'r Ddeddf Teithio Llesol yn effeithio ar y system gynllunio. Pwysleisiodd Roisin cymaint mae'r RTPI yn cefnogi teithio llesol, a bod y sefydliad yn credu ei fod yn hanfodol er mwyn creu cymunedau sy'n hawdd byw ynddynt. Nododd nad oes unrhyw gyfeiriad at y Ddeddf Teithio Llesol yn y ddeddfwriaeth gynllunio ac mai dim ond cyfeiriadau ffeithiol at deithio llesol sydd yn rhifyn cyfredol Polisi Cynllunio Cymru, gan olygu nad oes gorfodaeth ar ddatblygwyr i gydymffurfio. Galwodd am gryfhau geiriad y Ddeddf fel bod teithio llesol yn dod yn rhan hanfodol o unrhyw ddatblygiad newydd. Nododd fod teithio llesol yn wynebu cystadleuaeth o "fuddion cymdeithasol" eraill megis taenellwyr a thai cymdeithasol. Dywedodd fod angen i aelodau o bwyllgorau cynllunio ddeall teithio llesol yn well. Eglurodd pa mor bwysig yw hi i deithio llesol ymestyn y tu hwnt i adrannau trafnidiaeth ac i gael ei groesawu ar draws yr awdurdod lleol, yn enwedig gan adrannau addysg. Pwysleisiodd bwysigrwydd cael arweiniad da o ran dylunio a dywedodd y dylai holl brosiectau teithio llesol Llywodraeth Cymru fod yn enghreifftiau o'r arfer orau. Roedd yn hanfodol cael rhagor o gefnogaeth gyhoeddus i deithio llesol, gan fod angen dangos bod galw clir am y seilwaith.

Esboniodd Victoria ei rôl yng Nghyngor Bro Morgannwg lle'r oedd hi'n gyfrifol am y polisi cynllunio a'r broses ymgeisio. Siaradodd am y nifer gynyddol o aneddleoedd a oedd yn aml yn bell iawn o amwynderau. Roedd angen i fwy o ddatblygiadau gael eu canolfannau rhanbarthol eu hunain a chysylltiadau â chanolfannau cludiant, a fyddai'n gwneud teithio llesol yn fwy poblogaidd oherwydd yr amserau teithio byrrach. Dywedodd fod cerdded a beicio wedi bod yn rhai o'r pynciau pwysicaf ar yr agenda yn y blynyddoedd diwethaf ond bod yn aml yn rhaid brwydro yn erbyn peirianwyr priffyrdd; roedd gwir angen mwy o hyfforddiant ynghylch darparu teithio llesol ac yn enwedig y Canllawiau Dylunio. Roedd Bro Morgannwg wedi bod yn gofyn am gyfraniad at drafnidiaeth gynaliadwy gan ddatblygwyr ers deng mlynedd. Roedd cynllunio teithio bellach yn ofyniad mewn perthynas â datblygiadau newydd. Roedd targedau clir yn eu lle, a beiciau a phasiau ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus wedi cael eu darparu ers y ddwy flynedd ddiwethaf.

Soniodd Phil Snaith o Fforwm Beicio Sir Gaerfyrddin am sut roedd saith datblygiad o fewn un filltir sgwâr yn Cross Hands nad oeddent wedi rhoi ystyriaeth i'r Ddeddf Teithio Llesol neu'r Canllawiau Dylunio. Cwynodd am y ffaith iddo beidio â chael digon o rybudd am ddatblygiadau, ac am y ffaith nad oedd unrhyw ofyniad ar ddatblygwyr i hysbysu sefydliadau sy'n hyrwyddo teithio llesol ymlaen llaw. Yn dilyn gwaith ymgyrchu gan ei fforwm, byddai dau o'r datblygiadau nawr yn derbyn cyllid ar gyfer seilwaith teithio llesol ac yn cael eu cynnwys yn y Map Rhwydwaith Integredig. Soniodd hefyd am broblemau gydag Ysgolion yr 21ain ganrif yn Llanelli, sy'n methu â darparu teithio llesol digonol, os o gwbl, yn ymarferol.

Yn y drafodaeth gyffredinol a gafwyd yn dilyn hynny, gwnaed y pwyntiau

allweddol a ganlyn:

- Mae perygl y bydd dibyniaeth datblygiadau unigol ar gyllid yn arwain at greu darnau o lwybrau ar wahân i'w gilydd yn hytrach na rhwydweithiau priodol sy'n caniatáu i bobl wneud teithiau cyflawn.
- Pwysigrwydd cynnwys cymunedau mewn trafodaethau ynghylch seilwaith teithio llesol mewn ffordd gadarnhaol.
- A ddylai'r Ddeddf Teithio Llesol, sydd yn cael ei diwygio ar hyn o bryd, geisio cysylltu ei hun yn fwy effeithiol i'r system gynllunio fel rhan o'r newidiadau sy'n mynd rhagddynt?
- Pwysigrwydd arweinyddiaeth leol wrth sicrhau darpariaeth briodol. Yn rhy aml, ni geir hyn.
- Rhaid cynnwys darpariaeth o ran teithio llesol ar gam cyntaf y broses o adeiladu datblygiad.
- Mae angen i awdurdodau lleol rannu arfer gorau yn fwy effeithiol. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn hwyluso hyn.

Diolchwyd i'r siaradwyr am eu cyfraniadau diddorol a heriol.

**Diwygio Polisi Cynllunio Cymru - Ystyried cyflwyniad drafft i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru**

Rhoddodd Matt Price, a arweiniodd y Gweithgor CPGATA ar adolygu Polisi Cynllunio Cymru, gyflwyniad ar yr hyn sydd wedi'i gyflwyno fel drafft hyd yma, gan esbonio mai bwriad y ddogfen oedd symud Polisi Cynllunio Cymru i ffwrdd o'r naratif ynghylch manteision teithio llesol ac at ofyniad i wneud darpariaeth ystyrlon. Pwysleisiodd pa mor bwysig yw hi fod y Canllawiau Dylunio a'r Polisi Cynllunio yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau bod y mater o ddarparu trafnidiaeth gynaliadwy mor glir a syml â phosibl i ddatblygwyr. Croesawodd Dai Lloyd AC y fenter a phwysleisiodd bwysigrwydd manteisio ar y cyfle hwn i helpu i newid ymddygiad pobl a mabwysiadu ffordd o fyw mwy llesol. Dywedodd fod yn rhaid i bolisi fynd y tu hwnt i "eiriau addawol". Gofynnodd Richard Brunstrom a oedd y geiriad yn y cyflwyniad drafft yn ddigon cryf. Cytunodd Matt i adolygu'r drafft a newid 'dylai' i 'rhaid' lle bynnag y bo modd. Gyda'r newidiadau hynny, cytunodd y rheini a oedd yn bresennol yn y cyfarfod y byddai'r Grŵp yn cefnogi'r cyflwyniad ac yn galw ar ACau ac aelod-sefydliadau i wneud cyflwyniadau yn cefnogi dogfen CPGATA.

Diolchodd y Cadeirydd i Matt a'r gweithgor am eu gwaith caled ar gynhyrchu'r drafft. Dywedodd ei bod yn hanfodol bod cymaint o ACau a sefydliadau â phosib yn cefnogi'r cyflwyniad.

**Adroddiad ar Arolwg ynghylch Dull Awdurdodau Lleol o gynnal y Broses Map Rhwydwaith Integredig**

Amlinellodd Chris Roberts brif ganfyddiadau'r arolwg:

- Mae'n glir iawn nad oes adnoddau digonol ar gael ar gyfer y broses.
- Llawer o amrywiaeth o ran math o ymgynghoriad a'r lefel o ymgynghori. Mae angen i'r gyfraith a'r cyfarwyddyd fod yn fwy eglur.
- Roedd hyfforddiant ar y system a'r Arweiniad Dylunio yn annigonol ac anaml iawn y byddai'n mynd y tu hwnt i'r person a oedd yn gyfrifol yn uniongyrchol am grynhoi'r INM.
- Yn gyffredinol, mae'r lefel isel o ymatebion i'r ymgynghoriadau yn dangos nad yw'r broses wedi gweithio'n dda. Beth wnaeth Llywodraeth Cymru i roi cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriadau? Dywedodd un cyngor mai dim ond 11 o bobl yn ardal yr awdurdod cyfan oedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad.
- Dyma'r tro cyntaf i'r broses gael ei defnyddio ond mae hynny'n ei gwneud hi'n bwysicach fyth i ddysgu o'r profiad a sicrhau ein bod yn gwella'r broses ar gyfer y tro nesaf.

**Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cytunwyd ar y cofnodion.

**Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod a daeth â'r cyfarfod i ben.**

**Yn bresennol**:

| **Enw cyntaf** | **Cyfenw** | **Sefydliad** |
|---|---|---|
| John | Griffiths | AC |
| Dai | Lloyd | AC |
| Julie | Morgan | AC |
| Jenny | Rathbone | AC |
| Lee | Waters (Cadeirydd) | AC |
| Ioan | Bellin | (Yn cynrychioli Simon Thomas AC) |
| Meryl | James | (Yn cynrychioli Julie Morgan AC) |
| Thomas | Pinder | (Yn cynrychioli David Melding AC) |
| Darren | Price | (Yn cynrychioli Dai Lloyd AC) |
| Peter | Wong | (Yn cynrychioli Jenny Rathbone AC) |
| Ken | Barker | Cardiff Cycle Campaign |
| Richard | Brunstrom | Cycling UK Gogledd Cymru |
| Catherine | Floyd | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Ellen | Jones | Sustrans Cymru |
| Hugh | Mackay | Cycling UK Bro Morgannwg |
| Rachel | Maycock | Living Streets |
| Craig | Mitchell | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Gwenda | Owen | Cardiff Cycle City |
| Matt | Price | Cyngor Sir Caerdydd |
| Chris | Roberts | Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol |
| Victoria | Robinson | Cyngor Bro Morgannwg |
| Geoff | Rone | Fforwm Beicio Sir Gaerfyrddin |
| John | Sayce | Wheelwrights |
| Phil | Snaith | Fforwm Beicio Sir Gaerfyrddin |
| Roisin | Willmott | RTPI |